

Roedd **Efa Grug** yn chwech oed, a'r disgybl hynaf ym mlwyddyn un yn **Ysgol y Santes Fach**.

Ond, roedd **Ysgol y Santes Fach** wedi cau ei drysau am nawr – er nad oedd hi'n amser gwyliau – ac roedd pawb angen aros adref yn lle.

Doedd **Efa Grug** ddim wir yn deall beth oedd y rheswm dros yr holl halibalw, dim ond ei bod hi'n bwysig **IAWN** bod pawb yn golchi eu dwylo. Er, roedd hyn yn rhywbeth roedd **Efa Grug** yn ei wneud ta beth (pwy fuasai ddim?!).



Roedd yr amgylchiadau newydd yn golygu bod **Efa Grug** angen aros adref gyda'i rhieni!

Roedd **Efa Grug** ychydig yn drist oherwydd roedd y rheolau newydd yn golygu na fyddai'n cael chwarae gyda'i ffrindiau am sbel.

Roedd **Efa Grug** am weld eisiau rhedeg a chwerthin gyda'i ffrindiau o gwmpas cae chwarae'r ysgol.



Ond, roedd gan rieni **Efa Grug** syniad gwyh i wneud eu merch fach yn hapus eto...

Heddiw, roedd **Efa Grug** a'i rhieni am adeiladu **Den Dysgu**.

Casglodd Mam **Efa** y **blancedi** i greu to'r den, casglodd **Efa Grug** y **clustogau** i greu llawr y den, a chasglodd Dad **Efa** ei **drôns lliwgar** i'w roi i chwifio oddi ar do'r den!



Unwaith roedd y tri wedi creu'r **Den Dysgu** yn yr ystafell fyw roedd hi'n amser dysgu am **Tegwen** – **y dylwythen deg ddireidus**.

Eisteddodd y tri ohonynt ar glustog yr un gan wneud eu hunain yn gyfforddus, cyn i Fam **Efa Grug** ddechrau'r stori trwy ddweud:

Roedd **Tegwen**, y **dylwythen deg ddireidus**, yn adnabyddus iawn ar hyd y deyrnas am gymryd dannedd plant bach heb adael yr un rhodd o dan eu clustogau!

Byddai plant bach Cymru'n deffro'n gyffrous i weld sawl ceiniog roedd y dylwythen deg wedi'i gadael... ond yn siomi wrth weld bod **dim byd** o dan eu clustogau!

Parhaodd Dad **Efa Grug** gyda'r stori trwy ddweud:

Ond, newidiodd popeth pan gollodd **Tegid** un o'i ddannedd blaen.



Roedd **Tegid** mor gyffrous ynghylch colli ei ddant cyntaf roedd e'n poeni na fyddai'n gallu cysgu'r noson honno.



Yn lle, caeodd **Tegid** ei lygaid gan *esgus* cysgu.

Felly, pan ddaeth **Tegwen**, **y dylwythen deg ddiereidus** i mewn i ystafell wely **Tegid**, sylwodd **Tegid** ar **Tegwen** yn cymryd ei ddant heb adael yr un geiniog ar ôl.

Neidiodd **Tegid** allan o'i wely gan gau ffenest yr ystafell yn glep fel nad oedd modd i **Tegwen** ddianc.

Roedd **Efa Grug** ar bigai'r drain eisiau gwybod beth oedd yn digwydd nesaf.


"Dewch 'mlaen! Beth sy'n digwydd nesaf?" holodd **Efa Grug**.

"Wel, fel mae pawb yn gwybod, mae unrhyw un sy'n gweld tylwythen deg yn cael gwneud un dymuniad," eglurodd Mam **Efa** wrthi.

Felly, rhoddodd **Tegwen** un dymuniad i **Tegid**.

"Hoffet ti wybod beth oedd dymuniad Tegid?" holodd Dad **Efa**.

Roedd **Efa Grug** yn rhy gyffrous i siarad ac yn lle nodiodd ei phen yn frwd!



Yn ôl ei rhieni, roedd **Tegid** wedi dymuno bod **Tegwen, y dylwythen deg ddireidus**, angen gadael un o'r rhoddion mwyaf gwerthfawr o dan glustogau plant bach Cymru o hynny ymlaen... sef **dwst aur** y tylwyth teg!

Parhaodd ei rhieni trwy egluro bod **dwst aur** y tylwyth teg yn hudol dros ben.

"Achos os wyt ti byth yn dod ar draws dwst aur y tylwyth teg fe gei di un dymuniad a bydd rhaid i'r tylwyth teg ei wireddu!"

cyhoeddodd Mam **Efa Grug**.

Cyn i **Efa Grug** ymateb, clywodd y tri ohonynt dincial ysgafn a golau llachar yn hedfan o do'r den ac allan trwy'r ffenest. Wrth i'r golau bach llachar adael y den, gorchuddiwyd **Efa Grug** mewn **dwst aur**.

Roedd **dwst aur Tegwen, y dylwythen deg ddireidus**, wedi cwmpo dros **Efa Grug**!

"Gwna ddymuniad," dywedodd ei rhieni mewn unsain.

Caeodd **Efa Grug** ei llygaid yn dynn a dymunodd y byddai'n gallu gweld ei ffrindiau o **Ysgol y Santes Fach** yn fuan eto.



Y prynhawn hwnnw, ar ôl dysgu am gorachod, cewri, gwrachod a dewiniaid, cerddodd **Efa Grug** a'i rhieni i lawr y stryd am ychydig o awyr iach.

Wrth gerdded, sylwodd **Efa Grug** ar sawl darlun pert o **enfysau** yn ffenestri'r tai. Yn sefyll o dan rhai o'r lluniau o **enfysau** y tu mewn i'w tai roedd ffrindiau **Efa Grug**.



Trodd **Efa Grug** at ei mam gan floeddio,

“Mae’r dymuniad wedi dod yn wir! Rydw i wedi gallu gweld fy ffrindiau eto!”

Er efallai nad oedd hi'r union ffordd roedd **Efa Grug** wedi dychmygu gweld ei ffrindiau o **Ysgol y Santes Fach** unwaith eto, roedd hi'n fwy na hapus yn chwifio atynt o balmant y stryd.

Chwifiodd Mam **Efa Grug** ar ffrindiau **Efa** hefyd gan ddweud,

"Diolch byth am bŵer y tylwyth teg!"

Cofia os weli di ddarlun o **enfys** mewn ffenest: chwifia at y plentyn y tu mewn i'r tŷ. Ond yn bwysicach na hynny, paid byth ag anghofio chwilio am **ddwst aur** y tylwyth teg...

Awdur: Rhiannon Lloyd Williams

Darlunydd: Sioned Medi Evans